Cynllun Effeithlonrwydd Ynni – Canllawiau'r Cynllun

YNGLŶN Â'R CYNLLUN

Mae'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn helpu mudiadau gwirfoddol i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo drwy ddarparu cyngor, cyllid ac arbenigedd.

Mae'r cynllun yn darparu:

- Grantiau hyd at £1,000 tuag at arolwg ynni yn eich eiddo
- Grantiau hyd at £25,000 tuag at hyd at 80% o'r gost o wneud y gwaith a nodwyd
- Benthyciadau i dalu unrhyw gostau gosod sy'n weddill
- Cysylltiadau â mudiadau sydd eisoes yn gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol ac sy'n gallu cynnig arolygon, cyngor a gwaith gosod

DIBEN Y CYNLLUN

Mewn arolwg diweddar gan CGGC, nodwyd mai'r cynnydd mewn biliau ynni yw'r ffactor a fydd yn cyflwyno'r her fwyaf i'r sector gwirfoddol yng Nghymru dros y 12 mis nesaf.

Nid yw'r broblem yn un sy'n mynd i ddiflannu'n fuan, a gyda'r argyfwng newid hinsawdd, mae effeithlonrwydd ynni yn cael ei wthio i fyny rhestr 'i'w gwneud' pob mudiad.

Mae mudiadau gwirfoddol yng Nghymru eisiau gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â hyn, ond yn wynebu'r cwestiynau, 'beth allwn ni ei wneud?', 'pwy allwn ni ddibynnu arno i wneud gwaith da?', 'sut gallwn ni wybod a yw'n fargen dda?' a 'sut gallwn ni dalu amdano?'.

I ateb y cwestiynau hyn, mae tîm Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru (SIC) CGGC wedi ymuno â'r Moondance Foundation, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru a gweithwyr proffesiynol amrywiol yn y sector i gyflwyno Cynllun Effeithlonrwydd Ynni newydd. Mae'r cynllun yn dwyn ynghyd cyngor, cyllid ac arbenigedd i gyd o dan yr un to.

I BWY MAE HWN?

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn, rhaid i'ch mudiad fod:

- Wedi'i gyfansoddi'n addas gyda strwythur llywodraethu cydnabyddedig
- Yn berchen ar ei eiddo rhydd-ddaliadol ei hun neu â lesddaliad hir (o leiaf 25 mlynedd)
- Â bil ynni blynyddol o £10,000 y flwyddyn o leiaf
- O fewn Cymru

GRANTIAU AROLWG YNNI

Gallwch wneud cais am grant o £1,000 tuag at gost cynnal arolwg ynni yn eich eiddo.

Gellir gwneud cais drwy system Porth Ymgeisio Amlbwrpas (MAP) CGGC y gellir ei chyrchu yma.

Mae gennym gyllid i wneud hyd at 100 o ddyfarniadau a fydd yn cael eu penderfynu mewn dau banel ddyfarnu a fydd yn cael eu cynnal ar ddechrau mis Rhagfyr ac ar ddiwedd mis Ionawr. Bydd dyraniadau yn cael eu gwneud yn ôl: -

- **Daearyddiaeth** – er mwyn sicrhau dyraniad teg ledled Cymru
- **Canlyniad** – yr arbedion posibl y gellid eu gwneud, ar sail maint y biliau ynni
- **Effaith** – y pwysigrwydd ariannol i'r mudiad o lwyddo i leihau costau ynni
- **Maes gwaith** – i sicrhau lledaeniad ar draws gwahanol rannau o'r sector gwirfoddol yng Nghymru
- **Ymrwymiad i weithredu** – a yw'r mudiad yn gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r broblem?

Bydd ymgeiswyr na chaiff eu cyllido yn y cylch cyntaf yn cael eu hystyried yn awtomatig yn yr ail gylch. Mae hyn yn golygu nad yw ar sail 'y cyntaf i'r felin', ond byddem yn annog pawb i ymgeisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol er mwyn 'cael lle yn y ciw'.

CAEL YR AROLWG WEDI'I WNEUD

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn dod o hyd i ymgynghorydd i gynnal adolygiad ynni o'u heiddo, a bydd ef neu hi yn llunio adroddiad sy'n cynnwys:

- Asesiad o'r ynni a ddefnyddir ar hyn o bryd
- Ffyrdd posibl y gellir cynhyrchu ynni ar y safle neu ffyrdd y gellir lleihau'r ynni
- Amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â chamau o'r fath

- Nodi ystyriaethau pellach sydd eu hangen, e.e. cynllunio, arolwg to ac ati
- Amcangyfrif o'r ynni sy'n debygol o gael ei arbed, y lleihad mewn allyriadau carbon a'r costau ariannol a gaiff eu harbed

Gan gydnabod na all mudiadau wybod at bwy i droi i wneud gwaith o'r fath, dyma gwmnïau sy'n adnabyddus iawn i ni ac sydd wedi'u briffio'n llawn ar y gofynion o dan y prosiect hwn:

- **Awel Aman Tawe**
  Michael Switzer
  michael@awel.coop - 07823 466245 / 01639 830870
  www.aat.cymru
- **Datblygiadau Egni Gwledig**
  Bharadwaj Raman
  b.raman@deg.cymru - 07529 902493
  www.deg.wales
- **Rounded Developments Enterprises**
  Peter Draper
  info@rounded-developments.org.uk - 029203 73094 / 07929 529384
  rounded-developments.org.uk
- **Severn Wye**
  Stuart Dean
  stuartdean@severnwye.org.uk - 07974 326 133
  severnwye.org.uk
- **Utility Aid**
  Emily Berry
  eberry@utility-aid.com - 07913 519358
  utility-aid.co.uk

Nid yw'n ofyniad penodol o'r cynllun i ddefnyddio'r cwmnïau hyn. Byddwn yn derbyn adroddiadau eraill, os ydynt yn bodloni gofynion yr arolwg.

Gall mudiadau gael syrfewyr i wneud gwaith mwy eang ar y cam hwn neu i arolygu mwy nag un eiddo, ond £1,000 fydd y swm mwyaf o grant y gellir ei gael (yn cynnwys TAW anadferadwy yn unig).

Bydd pob buddiolwr grant yn cael gwahoddiad i ddod i weminar a gynhelir gan The Ethical Property Foundation (Saesneg yn unig) a fydd yn edrych ar agweddau ehangach cynllun rheoli eiddo a sut mae effeithlonrwydd ynni yn ffitio o fewn hynny.

GRANTIAU GOSOD

Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn eich arolwg (waeth a yw wedi'i gyllido gan ein grant neu beidio), gallwch wneud cais am grant hyd at £25,000 ar gyfer cyfanswm o 80% o'r gost o wneud y gwaith a nodwyd, gan gynnwys TAW anadferadwy.

Trwy gymorth Moondance Foundation (gwefan Saesneg yn unig), mae gennym gyllid ar gyfer deg grant o'r fath ac mae cymorth pellach ar gael drwy Gynllun Grantiau Bach Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Unwaith y bydd hwn yn fyw, gellir hefyd wneud cais am y cyllid drwy system MAP CGGC. Bydd y broses yn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen, waeth a fydd y grant llwyddiannus yn dod drwy CGGC neu'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Ni fydd angen i chi gyflwyno ceisiadau ar wahân, ond gallwch dim ond llwyddo drwy un o'r ddau lwybr (ni allwch gael cyllid o CGGC a'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol drwy'r cynllun hwn).

BENTHYCIADAU GOSOD

Bydd yr un broses ymgeisio o fewn MAP yn rhoi'r opsiwn i chi wneud cais am fenthyciad ar yr un pryd i dalu am unrhyw wariant ychwanegol a allai fod gennych chi.

Mae'r benthyciadau hyn ar gael, waeth a ydych chi'n llwyddiannus gyda'r grant neu beidio, ond bydd angen i chi gyflwyno arolwg ynni addas gyda'ch cais.

Bydd telerau'r benthyciadau yn amrywio yn ôl maint ac amgylchiadau. Bydd y Tîm SIC yn fwy na bodlon trafod hyn gyda chi – sic@wcva.cymru.

CYMERADWYAETH

Bydd panel grantiau CGGC yn defnyddio meini prawf tebyg iawn i'r rheini ar gyfer y grantiau arolwg ynni i bennu'r dyfarniadau. Bydd y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn dilyn eu proses arferol – mae rhagor o wybodaeth am hynny yma.

GWAITH GOSOD

Cydnabyddir y gall fod angen ychydig o help ac arweiniad ychwanegol arnoch i ddewis contractwr priodol i gyflawni'r gwaith neu i gael rheolwr prosiect i'w oruchwylio. Gall yr holl fudiadau a restrwyd uchod yng ngham dau roi hyn i chi yn ogystal â'r enwau ychwanegol yn y rhestr hon:

- **Awel Aman Tawe**
  Michael Switzer
  michael@awel.coop - 07823 466245 / 01639 830870
  www.aat.cymru
- **Datblygiadau Egni Gwledig**
  Bharadwaj Raman
  b.raman@deg.cymru - 07529 902493
  www.deg.wales
- **Rounded Developments Enterprises**
  Peter Draper
  info@rounded-developments.org.uk - 029203 73094 / 07929 529384
  rounded-developments.org.uk
- **Severn Wye**
  Stuart Dean
  stuartdean@severnwye.org.uk - 07974 326 133
  severnwye.org.uk
- **Utility Aid**
  Emily Berry
  eberry@utility-aid.com - 07913 519358
  utility-aid.co.uk

Caiff y gost o ddefnyddio unrhyw un o'r rhain, neu fudiadau eraill, i ymgymryd â'r gwaith ei ystyried yn 'wariant cymwys' o fewn eich cais am grant neu fenthyciad, ynghyd â TAW anadferadwy.

Rhagwelwn y bydd y mwyafrif o'r gwariant ar bethau fel paneli solar, pympiau gwres, storfa batris, inswleiddio ac ati, ond rydyn ni'n hapus i ystyried unrhyw beth sy'n ffitio gydag ethos y cynllun, gan gynnwys prynu cyfarpar mwy ynni effeithlon.

Gellir cael atebion i gwestiynau neu esboniadau gan sic@wcva.cymru.

Ymhlith cwmnïau eraill, gall y canlynol fod yn ffynonellau pellach o wybodaeth a chymorth yn y maes hwn:

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru – rhaglen Egin

Cynnal Cymru

> Os ydych chi eisiau deall mwy am yr argyfwng hinsawdd neu sut i ddod â'ch staff, eich ymwelwyr neu eich buddiolwyr gyda chi ar eich taith i ddatgarboneiddio, mae Cynnal Cymru yn cynnig yr hyfforddiant Llythrennedd Carbon (tudalen we Saesneg yn unig) gwobrwyedig i unigolion neu grwpiau, yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cysylltwch â mudiad Cynnal Cymru hefyd os oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfrifo ôl troed carbon eich mudiad. Mae'r gwasanaeth wedi'i ddylunio'n benodol i fudiadau llai ddeall eu hallyriadau a gwneud gostyngiadau wedi'u targedu yn unol â thargedau hinsawdd.

SUT I YMGEISIO

Er mwyn gwneud cais i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni, bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth Ymgeisio Amlbwrpas CGGC (MAP). Os ydych chi wedi cofrestru gyda MAP o'r blaen, gallwch chi fewngofnodi drwy nodi eich enw defnyddiwr a chyfrinair ar y sgrin gartref.

Gall mudiadau gofrestru drwy fynd i'r wefan: map.wcva.cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg yn **wcva.cymru